RHANNWCH Y **BWLETIN** Â HOLL STAFF YR YSGOL A'U HANNOG I **DANYSGRIFIO.**

# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

## NEGES GAN GwE

Wrth i flwyddyn addysgol arall ddirwyn i ben, hoffem ddiolch yn ddiffuant i chi am eich gwaith a'ch cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn y penderfyniadau cenedlaethol diweddar sydd wedi cael effaith sylweddol ar drefniadau gwella ysgolion yng Ngogledd Cymru, gallwn eich sicrhau y byddwn yn gwneud ein gorau i barhau i'ch cefnogi hyd eithaf ein gallu am y ddau dymor nesaf.

Dymuniadau gorau i chi gyd a mwynhewch y seibiant dros yr haf.

Arwyn H Thomas

**Arwyn Thomas**
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE: EBRILL 2024 - MAWRTH 2025

**Mae Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE Ebrill 2024 - Mawrth 2025 yn fyw ar ein gwefan.**
Yma cewch gofrestru a gwybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Astudiaethau Achos Gwyddoniaeth a Thechnoleg [8-11 oed]

**CYNLLUNIO GWYDDONIAETH A THECHNOLEG A'R SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD**

Ymarferwyr rhanbarthol yn cyflwyno syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu profiadau dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ystod y sesiwn, edrychir ar y canlynol:

- Themâu a chyd-destunau cyfoes.
- Profiadau ac ymholiadau i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth wyddonol dysgwyr.
- Cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau trawsgwricwlaidd.

**Cofrestrwch drwy glicio ar un o'r dyddiadau isod:**

**19/09/2024 - 16:00-17:30 - Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [CYFRWNG SAESNEG]**

**03/10/2024 - 16:00-17:30 - Swyddfa GwE, Penrallt, Caernarfon [CYFRWNG CYMRAEG]**

## Gweithdy i athrawon a chymorthyddion sy'n newydd i'r oedran 3-8 oed

**Gweithdy undydd sy'n rhoi sylw i:**

- Ddatblygu dealltwriaeth bellach o sut i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso sgiliau llythrennedd/rhifedd/digidol o fewn amgylchedd dysgu effeithiol ac addysgeg briodol.
- Datblygu dealltwriaeth bellach o gynnydd mewn sgiliau o'r llwybrau datblygu hyd at ddiwedd CC2

**NI DDARPERIR CINIO. Cofrestrwch ar gyfer un o'r dyddiadau isod:**

**CYFRWNG CYMRAEG:** **18/09/2024 - Bryn Eirias** | **26/09/2024 - Penrallt**

**CYFRWNG SAESNEG:** **23/09/2024 - Bryn Eirias** | **25/09/2024 - Linden House**

## Aelodau o Uwch Dimau Arwain ysgolion uwchradd sydd yn arwain ar y sgiliau trawsgwricwlaidd

**Gweithdy undydd sy'n rhoi sylw i:**

- Gynllunio yn strategol ar gyfer cynnydd a dilyniant yn y sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol uwchradd.
- Cynllunio cefnogaeth a dysgu proffesiynol ar gyfer staff i ddatblygu'r ddarpariaeth ac addysgu'r sgiliau trawsgwricwlaidd.
- Arfarnu cynnydd a safonau yn y sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol.

**NI DDARPERIR CINIO. Cofrestrwch ar gyfer un o'r dyddiadau isod:**

**CYFRWNG CYMRAEG:** **19/09/2024 – Bryn Eirias** | **23/09/2024 – Penrallt**

**CYFRWNG SAESNEG:** **20/09/2024 – Bryn Eirias** | **24/09/2024 – Linden House**

## Gwobrau Addysgu Cymru 2024

Llongyfarchiadau i bawb yn rhanbarth GwE a ddaeth i'r brig yng **Ngwobrau Addysgu Cymru**.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Oes gan eich ysgol ddiddordeb mewn datblygu athrawon fel ymholwyr proffesiynol?

**OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN DEFNYDDIO SGILIAU YMCHWIL AC YMHOLI FEL RHAN O'CH GWERTHUSIAD O WAITH CWRICWLWM I GYMRU A'CH DARPARIAETH EHANGACH?**

Os felly, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP) yn 2024-2025.

## A yw eich ysgol yn ceisio helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref?

**YDYCH CHI'N CREDU BOD GAN EICH YSGOL RIENI/GOFALWYR DISGYBLION YM MLYNYDDOEDD 3, 4, 5, AC/NEU 6 ALLAI DREIALU SUT Y GELLIR DEFNYDDIO EIN CYFRES O ADNODDAU DATBLYGU RHUGLDER RHIFEDD SAFMEDS GARTREF?**

Os felly, yn nhymor yr Hydref 2024 byddwn yn cynnig cyflwyniad i'r deunyddiau i rieni sydd â diddordeb ac yn dangos iddynt sut y gallant helpu eu plentyn gartref. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

## A yw eich clwstwr chi yn chwilio am ffyrdd i wella sgiliau rhifedd dysgwyr?

**RYDYM YN AWYDDUS I GLYWED GAN GLYSTYRAU AC/NEU YSGOLION SYDD Â DIDDORDEB MEWN TREIALU RHAGLEN RIFEDD YN SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH GYDA PHRIFYSGOL WARWICK A GwE.**

Mae'r rhaglen Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) yn ymyrraeth fathemateg yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i seilio ar Maths Recovery. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi datblygiad sgiliau rhifedd dysgwyr sy'n cael trafferthion, neu nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ar hyn o bryd mewn mathemateg a rhifedd. Addaswyd i-TEN ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau prif lif, ac yn enwedig dysgwyr iau ag ADY mewn ysgolion cynradd. Hoffem weithio gyda deg ysgol yn 2024-25 i werthuso effaith i-TEN gyda grwpiau bach o ddysgwyr mewn lleoliadau prif lif. Hoffem glywed yn arbennig gan ysgolion mewn clwstwr a allai fod â diddordeb mewn gweithio efo ni. Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect i-TEN yma.

Cysylltwch â richardwatkins@gwegogledd.cymru i fynegi diddordeb


## Allwch chi wella ein dealltwriaeth o sut mae ysgolion wedi rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith?

Rydym yn chwilio am arweinwyr cwricwlwm mewn ysgolion i'n helpu i ddeall sut mae athrawon wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar brofiadau dysgu mewn ysgolion. Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

# DIGIDOL

## Gŵyl Digi Hwb

Cynhelir yr ŵyl rithiol hon ddydd Llun, 2 Medi rhwng 9:30yb a 2:30yp. Yn ystod y dydd bydd cyfres o weithdai byrion yn cael eu cynnal gan bartneriaid Hwb, Adobe, Apple, Britannica, Common Sense Education, Flip, Google, J2E, Microsoft, Minecraft a Technocamps. Cyfle gwych i uwch sgilio eich holl staff os oes diwrnod hyfforddiant mewn swydd wedi'i drefnu! Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.



# Y GYMRAEG

### Ydych chi eisiau cryfhau eich Cymraeg? *[Gloywi Iaith]*

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

### Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE: CYNRADD | UWCHRADD



## SECTOR CYNRADD

### Dysgu cyflwyno iaith yn y sector cynradd - Cwrs TELT gan y Brifysgol Agored wedi'i ariannu'n llawn.

**COFRESTRU 2024-2025**

Cyfle unigryw i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd drwy'r Brifysgol Agored. Manylion llawn a chofrestru yma.

## SECTOR CYNRADD / UWCHRADD

### Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd : 26/09/2024

Syniadau i baratoi ar gyfer y dathliadau: Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd




### Ceisiadau Cysylltiad y DU/Almaeneg ar agor: cyfleoedd i athrawon 2024-25

Cyfle 'Wunderbar' i ddarparu uwchsgilio ieithyddol a diwylliannol i athrawon ac ysgolion sy'n hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ryngddiwylliannol disgyblion drwy gyfrwng yr Almaeneg. Nid oes angen Almaeneg yn eich cwricwlwm. Dilynwch y ddolen hon i wneud cais uniongyrchol i'r UK German Connection.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

### Prosiect Peilot: Cymorth dylunio cwricwlwm a threfniadau asesu

Os hoffech gymryd rhan yn y prosiect peilot hwn, cwblhewch y datganiad byr hwn o ddiddordeb erbyn 11 Medi 2024. Mae manylion llawn y prosiect ar gael yma.

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Cliciwch yma i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol 2024-2025.

Bydd ceisiadau yn agor drwy ddolen ar wefan a Bwletin GwE ar y dyddiadau isod.

**Ni ellir cyflwyno cais cyn y dyddiad hwnnw.**

| | RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH GANOL | RHAGLEN DATBLYGU UWCH ARWEINWYR |
|---|---|---|
| Ceisiadau yn agor | 10/09/2024 | 17/09/2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais | ERBYN 13:00 AR 03/10/2024 | ERBYN 13:00 AR 10/10/2024 |
| Sesiwn ragarweiniol i ymgeiswyr llwyddiannus | W/C 25/11/2024 | W/C 25/11/2024 |
| Rhaglen yn cychwyn | IONAWR 2025 | IONAWR 2025 |

## Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

- Newidiadau yn y Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso: Medi 2024
- Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ANG: Tymor yr Hydref 2024
- Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Mentoriaid Sefydlu/Dilyswr: 2024-2025

## Rhaglen Dysgu Proffesiynol Ôl-16: Sgyrsiau Heriol

Mae rhaglen Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol y Tîm Ôl-16 yn rhoi cyfle i archwilio a thrafod sut gall Arweinwyr Ôl-16 fynd i'r afael â sgyrsiau heriol. I sicrhau lle, cliciwch ar y ddolen hon a chwblhau'r ffurflen gofrestru fer. Manylion llawn ar gael yma.

## Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16

Mae'r rhaglen ar gyfer **darpar arweinwyr ôl-16, arweinwyr newydd a chyfredol**, ac fe'i dyluniwyd i gynnig cyfle i gyd-weithwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth iddynt baratoi at a wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Cyflwynir y rhaglen trwy ddull dysgu cyfunol, a hynny gan gyd-weithwyr rhanbarthol arbenigol ôl-16 ac arweinwyr ôl-16 profiadol. Manylion llawn, dyddiadau a chofrestru ar gael yma.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Ar gais ysgolion, mae'r gweithdai a hysbysebwyd ar gyfer tymor yr Haf 2024 wedi'u datblygu fel sesiynau anghydamserol, yn hytrach na sesiynau byw.

Dilynwch y ddolen i recordiadau a chyflwyniadau PowerPoint cyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Tirlun

NEWYDD

Cymerwch gip ar y porth dwyieithog newydd a chyffrous ar gyfer dysgu am Dirweddau Dynodedig Cymru.

**AR GYFER DYSGWYR SY'N GWEITHIO O FEWN CAMAU CYNNYDD 3 A 4**

## Rhaglen MA Addysg Genedlaethol [Cymru]

NEWYDD

Mae'n bleser gan Brifysgol Wrecsam fod yn rhan o'r rhaglen Meistr mewn Addysg (Cymru) mewn cydweithrediad â chydweithwyr o brifysgolion ledled Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, gofynion mynediad a chymhellion ariannol posibl, ewch ar wefan MA Addysg Genedlaethol (Cymru) Prifysgol Wrecsam neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd Rhaglen, drwy e-bost at kelly.smith@wrexham.ac.uk neu ffonio 01978 293327.

**AR GAEL I YMARFERWYR ADDYSG LEDLED CYMRU AC MAE LLEOEDD WEDI'U HARIANNU'N LLAWN AR GAEL AR GYFER DECHRAU MIS MEDI 2024, YN AMODOL AR GYMHWYSEDD**

## Addysg Genedlaethol [Cymru] [Cyfrwng Cymraeg]

Os ydych chi'n ysgol arweiniol neu rwydwaith gyda Phrifysgol Bangor, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd dysgu llawn unrhyw aelod staff sydd â diddordeb yn y rhaglen hon. I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cymryd myfyrwyr Bangor, mae'n bosib y gallai cymorthyddion dysgu, CGADY ac athrawon yn eu trydedd hyd at eu chweched blwyddyn o'u gyrfa fod yn gymwys i gael cyllid. Am fwy o wybodaeth, gofynnir yn garedig i chi anfon e-bost at Kaydee Owen. Cewch fwy o wybodaeth yma.

**ÔL-RADDEDIG TRWY DDYSGU - MYNEDIAD: MEDI 2024/2025**

## Rhaglen Haf o Ddigwyddiadau: Canolfan Dyslecsia Miles

Ymunwch mewn cyfres o weithdai ymwybyddiaeth o ddyslecsia gan diwtoriaid dyslecsia arbenigol Canolfan Dyslecsia Miles.

Dydd Mawrth 20fed, Dydd Mercher 21ain a Dydd Iau 22ain o Awst 2024
9.30-16:30

**EBOSTIWCH AM FWY O WYBODAETH / I GADW LLE**

## Cyfres Arweinyddiaeth Well DARPL (Carfan 3, Hydref 2024)

Os hoffech fynegi eich diddordeb mewn cymryd rhan, COFRESTRWCH.

**ARWEINWYR YM MAES GWELLA ADDYSG, DATBLYGU POLISI, YMCHWIL, ADDYSG GYNRADD, UWCHRADD A PHELLACH, GOFAL PLANT, GWAITH CHWARAE A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR**


## Holiaduron Carlam Cymru

Mynegwch eich barn ar adnoddau prosiect Carlam Cymru.

**DYSGWYR BL.10-13**

## Adnoddau newydd ar Ddinasyddiaeth: BBC Bitesize





Ewch i wefan BBC Bitesize i weld adnoddau newydd ar Ddinasyddiaeth, ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd.

### CYNRADD (8-11 oed)

Cyfres o erthyglau i helpu disgyblion i ddeall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd, ar ffurf fideos byrion, graffeg a gweithgareddau rhyngweithiol.

Addas i ddisgyblion ar Gamau Cynnydd 2 a 3.

### UWCHRADD (11-14 oed)

Fideos a chwisiau ar bynciau amrywiol yn ymwneud â Dinasyddiaeth, o Aelodau Seneddol i'r system 'Cyntaf i'r Felin'.

Addas i ddisgyblion ar Gamau Cynnydd 3 a 4.

**DYSGWYR CYNRADD [8-11 OED]**

**DYSGWYR UWCHRADD [11-14 OED]**